**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**National Assembly for Wales**
Standards of Conduct Committee

1 Rhagfyr 2016

Annwyl Gyfaill

**Ymchwiliad i Lobïo - Ymgynghoriad**

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnal ymchwiliad i'r trefniadau presennol o ran lobïo yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r trefniadau wedi bodoli ers 2013, ac ymrwymwyd i adolygu'r trefniadau hyn yn gyson i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas yng nghyd-destun proses ddeinamig datganoli. Bwriad ymchwiliad y Pwyllgor yw penderfynu a ydyw'n glir beth y mae'r dinesydd eisiau ei wybod o ran lobïo ac os felly, a yw'r trefniadau yng Nghymru ar hyn o bryd yn darparu digon o wybodaeth, hygyrchedd a thryloywder?

Er mwyn gwneud hyn, bydd y Pwyllgor yn:

- Asesu a yw trefniadau presennol y Cynulliad o ran lobïo yn ddigon cadarn ac addas i'r diben ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn gwahodd sylwadau ar y cwestiynau canlynol yn enwedig:

- *A oes angen newid?*
- *Beth mae'r term 'lobïo' yn ei olygu i chi?*
- *Sut mae lobïo'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd?*

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSafonau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddStandards@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddStandards
0300 200 6565

- *A ydych yn ystyried eich hun yn lobïwr? Sut mae lobïo'n cael ei reoleiddio yn eich sector chi ar hyn o bryd? Hynny yw, er enghraifft, os ydych yn fusnes preifat, yn y trydydd sector neu'n sefydliad proffesiynol.*
- *A ydych wedi cael unrhyw broblemau â'r trefniadau presennol?*
- *A oes unrhyw feysydd yr ydych yn ystyried nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sy'n rhoi rhoi atebolrwydd ac enw da llywodraethu yng Nghymru mewn perygl?*
- *Beth ydych chi'n ei gredu fyddai effaith cyflwyno trefniadau newydd o ran lobïo?*

Yn gywir

Jayne Bryant AC
**Cadeirydd**